



WILIA

RHIFYN 470 TACHWEDD/RHAGFYR 2024 | AM DDIM

NOSON NADOLIGAIDD ADRAN PONTARDDULAIS -LUNED JONES

Braf oedd gweld festri Hope-Siloh yn orlawn, nos Lun 2 Rhagfyr, ar gyfer noson Nadoligaidd Adran Pontarddulais.

Cafodd y gynulleidfa o ryw gant o bobl ddisgled o de/coffi a mins peis, cyn cael eu diddanu gan blant yr Adran. Gosodwyd naws y Nadolig trwy gyfuniad o eitemau canu, offerynol ac ar lafar – yn unigol ac yn dorfol.

Mae dros 30 o blant blynyddoedd 2-9, o chwe ysgol wahanol yn mynychu'r Adran, ac yn mwynhau cymdeithasu, gemau a pharatoi ar gyfer perfformiadau – a hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd casgliad at y pwyllgor apel lleol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2025, a chodwyd £330! Diolch i bawb am eu cefnogaeth!



BLODAU GOBAITH -HEINI GRUFFUDD

Dyma lun o gyflwyniad Blodau Gobaith i Ganolfan Gofal Bron yn Ysbyty Singleton Abertawe. Roedd Aldyth Williams. Cadeirydd Gorllewin Morgannwg gyda Jaci Gruffudd a Linda Gimblett. Roedd Jaci a Linda wedi bod yn gleifion yn yr uned.



YDYCH CHI WEDI YSTYRIED YMUNO Â CHÔR MEIBION? -HUW MORRIS

Dyma gyfle euraidd ichi ymuno â Chôr Meibion Dyfnant.

Mae'r golygydd wedi cael gwahoddiad wrth Gôr Meibion Dyfnant i dynnu sylw darllenwyr a chyfeillion, at ymgyrch y côr i recriwtio aelodau newydd. Mae croeso i'r rhai sydd erioed wedi canu mewn côr, neu'r rhai mwy profiadol, a sydd â diddordeb mewn ymuno, i gysylltu â'r swyddog recriwtio, sef Huw Morris.

Côr Meibion Dyfnant yw'r côr sydd wedi canu'n ddi-dor am y cyfnod hiraf, yng Nghymru, sef dros 128 o flynyddoedd. Yn ystod 2023/24, aeth y côr ar daith o amgylch Cymru gan ganu ym mhob un o eglwysi cadeiriol Cymru – mae'n debyg taw'r côr yw'r cyntaf yng Nghymru i drefnu taith o'r fath. Gwahoddwyd y côr i ganu yng Ngŵyl Cymry Gogledd America, a gynhaliwyd yn Pittsburgh ym mis Medi 2024. Felly bu 2024 yn un gyffrous i'r côr ac o'r herwydd gellir dadlau bod Côr Meibion Dyfnant gydag un o gorau meibion mwyaf uchelgeisiol a deinameg yng Nghymru.

I gychwyn, fe'ch gwahoddir i fynychu ymarferion y côr (nos Lun a nos Fercher am 7.00pm) yng nghapel Ebeneser, Dyfnant, a blasu'r profiad o ganu mewn côr. I'r rhai fydd yn penderfynu ymuno â'r côr, bydd cyfle i ganu mewn cyngherddau lleol, cenedlaethol ac yn wir yn rhyngwladol. Peidiwch ag oedi, cysylltwch â'r swyddog recriwtio. Mae'n brofiad bythgofiadwy i ganu ar lwyfan gyda'r côr. Bydd y côr yn dechrau ymarfer ar gyfer y cyngerdd Nadolig cyn hir, felly mae'n adeg ddelfrydol i ymuno â'r côr!!

Mwy o wybodaeth: Join Us – Dunvant Male Choir (dunvantchoir.wales)

Person cyswllt: Huw Morris (Swyddog recriwtio) joinus@dunvantchoir.wales





**MIKE HEDGES YN CANMOL GWAITH
MUDIAD MEITHRIN
-HEINI GRUFFUDD**

Wrth siarad o'i swyddfa yn y Senedd yn dilyn Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg ddydd Mawrth, dywedodd AS Dwyrain Abertawe, Mike Hedges..... ' Mae tystiolaeth sylweddol bod y plant cynharaf yn dysgu iaith yr hawsaf yw hi iddyn nhw gaffael y gallu i ddeall siarad yr iaith.

Gwelais hynny er fy mwyn fy hun pan ymwelais â Meini Bach ym Mon-y-Maen [Ysgol Gymraeg y Cwm] ddydd Llun lle maent yn darparu ar gyfer plant oed meithrin o amrywiaeth o gefndiroedd ac a oedd i gyd yn dysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Rwy'n llongyfarch y staff yn Bonymaen am y gwaith y maent yn ei wneud gyda'r plant.

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn eu gallu i hyrwyddo'r Mudiad Meithrin ym mhob cymuned ledled Cymru; Byddwn yn annog pob rhiant i edrych ar yr opsiynau ar gyfer mynd i mewn i'w plant i'r mudiad Meithrin cyn gynted â phosibl.

**ARIAN I GAPELI
-HEINI GRUFFUDD**

Menter newydd gwerth £15m wedi'i chyhoeddi gan y Gronfa Dreftadaeth i gynnig cymorth hollbwysig i addoldai Cynhaliwyd Fforwm Addoldai Cymru ym mis Hydref yn Eglwys St Mary yng nghanol Abertawe, ble cydnabu Anne Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yr heriau sy'n wynebu mannau addoli ond cynigiodd obaith ar ffurf menter newydd gan y Gronfa Dreftadaeth.

Esboniodd: "Rydym yn gwybod bod heriau penodol o fewn Cymru i'r sector hwn, gan gynnwys anawsterau cyfathrebu a mynediad wrth weithio gydag addoldai gwledig anghysbell, yn ogystal â thueddiadau ehangach o gynulleidfaoedd sy'n heneiddio a chostau atgyweirio uwch."

Bydd y fenter newydd yn gweld o leiaf £15miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn partneriaethau i adeiladu capasiti mewn addoldai ledled y DU, a disgwylir i £100miliwn pellach gael ei fuddsoddi ledled y DU dros y tair blynedd nesaf i addoldai addoli presennol a blaenorol drwy grantiau treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae addoldai yn Abertawe eisoes wedi manteisio ar gyllid o'r Gronfa Treftadaeth, megis Eglwys St Fair a chafodd £30,000 yn 90au i adfer y twr, yn ogystal ag Eglwys St Paul yn Sketty a chafodd £23,500 am waith adnewyddu, ac £107,000 ymhellach ar gyfer Eglwys St James.

Mae addoldai yn Abertawe eisoes wedi manteisio ar gyllid o'r Gronfa Treftadaeth, megis Eglwys St Fair a chafodd £30,000 yn 90au i adfer y twr, yn ogystal ag Eglwys St Paul yn Sketty a chafodd £23,500 am waith adnewyddu, ac £107,000 ymhellach ar gyfer Eglwys St James.

Nod y buddsoddiad o £15m yw cefnogi prosiectau strategol sydd â'r potensial i gael effaith ar y sector ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol a bydd yn:

- mynd i'r afael yn rhagweithiol â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr
- galluogi dull gweithredu traws-tirogaethol cydgysylltiedig a fydd yn cryfhau'r ddarpariaeth
- mynd i'r afael â bylchau lle nad yw cynigion yn dod drwy ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- cyflymu syniadau ac ymyriadau newydd lle mae angen ymagwedd fwriadol

Ychwanegodd Anne: "Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi ymrwymo i gefnogi treftadaeth mewn angen fel rhan allweddol o'n strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, yn enwedig lle mae treftadaeth mewn perygl ac angen ei chadwraeth. Mae hyn yn berthnasol i anghenion treftadaeth pob ffydd ar draws y DU."

Dywedodd Cyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru Cymru, Andrew White:

"Rydym yn deall maint yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n ymroi eu hamser i gynnal a gofalu am addoldai, ac yn gwerthfawrogi natur unigryw'r heriau yng Nghymru. "Gobeithiwn y bydd y gefnogaeth rydym wedi'i chyhoeddi eleni yn rhoi hyder i'r sector gynllunio ar gyfer y dyfodol ac y bydd mannau addoli ledled Cymru sy'n ystyried cais yn cysylltu â ni ac yn cymryd y cam hwnnw".



CYNGERDD CAROLAU YN EGLWYS SANT IAGO
-ROB EVANS

Ar y 19eg o Ragfyr mae cynulleidffa Cymraeg eglwys Sant Iago yn eich gwahodd chi i'w Cyngerdd Carolau am 7.00 yr hwyr. Dyn ni'n gobeithio llenwi'r eglwys efo Cymry Cymraeg a dysgwyr i ddathlu gwir ystyr y Nadolig. Dw i'n gobeithio eich gweld chi yna ac os yw'r noson yn llwyddiant mi fydden ni'n edrych am wneud hyn bob Nadolig. Dyn ni'n gobeithio denu teuluoedd y plant sydd yn ein hysgolion Cymraeg lleol yn ogystal ag aelodau o bob cymdeithas Cymraeg, capel ag eglwys yn y ddinas. Dysgwyr hefyd, mae dysgwyr mor bwysig i ddyfodol ein hiaith a pha ffordd well o roi cipolwg o'n cymdeithas na ddod at ein gilydd i ganu?

Mi fyddai hefyd yn gyfle i chi gael cyhoeddusrwydd i'ch cymdeithasau ac, wrth wneud, cael aelodau newydd i'ch plith. Dw i'n gwybod o brofiad bod llawer o Gymry Gymraeg wedi colli cysylltiad â'r iaith ac yn awyddus i ail gysylltu. Tair blynedd yn ôl dechreuon ni grŵp Cymraeg yn Newton i helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg a wnaethon ni synnu ar beth ddigwyddodd. Roedd llawer mwy o Gymry Cymraeg wedi eu denu na dysgwyr. Roedden nhw i gyd wedi colli cysylltiad â'r iaith ac wrth eu boddau i gael y cyfle i sgwrsio am ddwy awr yr wythnos. Ond roedden nhw'n gwneud frindiau newydd hefyd. Iddyn nhw, yn sydyn mae'r Gymraeg yn fyw unwaith eto.

Bydden ni'n creu taflen yn cynnwys manylion eich cymdeithas a byddai'r manylion naill yn rhan o'n llyfryn carolau neu yn daflen ar wahân ond mi fyddai pawb yn cael copi. Anfonwch eich manylion, enw eich cymdeithas, ble a phryd dach chi'n cyfarfod a.y.b. ataf fi cyn gynted â phosib: bobwennol@ntlworld.com

Cyn cyfarfod cyntaf Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ym mis Hydref roedden ni'n gallu annog ein haelodau i fynd i'r cyfarfod. Mi wnaeth tua 12 wneud hynny a mwynhau! A dyna ni, yn sydyn mae un o'n cymdeithasau Cymraeg wedi cael ei gryfhau a nifer o Gymry Cymraeg wedi cael eu croesawu yn ôl.

Os dach chi'n crwydro o gwmpas Caerdydd dach chi'n clywed Cymraeg yn cael ei siarad, yr un peth yn Llanelli ac yng Nghaerfyrddin. Ond nid yn Abertawe. Pam?

Abertawe yw ein hail ddinas a byddech yn disgwyl clywed mwy o Gymraeg o'ch cwmpas. Efallai, wrth ddod i'r cyngerdd byddech chi'n gweld pobl dach chi'n adnabod heb wybod bod nhw'n siarad Cymraeg. Cyfle arall i chi siarad Cymraeg efallai. Ac os dach chi'n clywed grŵp o ddysgwyr mewn caffi yn siarad Cymraeg ewch atyn nhw, eisteddych a siaradwch efo nhw. Byddech yn synnu pa mor dda ydyn nhw a hefyd eu brwdfrydedd. Cefnogwch nhw ac os dach chi'n gweld nhw o gwmpas y ddinas gwnewch yn siŵr bod chi'n cael sgwrs.

Dewch i'n gyngerdd a mwynhewch y canu, codwch y to a theimlwch eich ysbryd yn codi ar yr un pryd. Mwynhewch eich hunain yn dathlu gwir ystyr y Nadolig. A gan mai Cymraeg yw 'iaith y Nefoedd' cofiwch fod rhaid i ni gadw'r iaith yn fyw, os gollwn ni'r iaith yn araf deg byddai'r nefoedd yn mynd yn dawel iawn!

Ac i gloi. Y rheswm arall i chi ddod yw y bydden ni'n codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2025! Dewch yn llw!

Dewch i ddathlu'r Nadolig
Stori'r geni a charolau

Yma yn Eglwys Sant Iago (St James) am 7.00
nos Iau 19eg o Ragfyr

Dewch i fwynhau canu carolau a gwrando ar ddarlenniadau'r geni.

Mi fydden ni'n codi arian ar gyfer
Eisteddfod yr Urdd 2025

Dewch yn llw

Croeso i bawb



Toeau tun rhychiog coch, waliau gwenithfaen llwyd, capeli Methodistaidd, siopau paste â baner ddu a gwyn Sant Piran, peiriannau mwyngloddio enfawr ar hyd y brynau – gallai Real del Monte fod bron yn unrhyw dref glowyr yng Nghernyw. Dim ond palet lliw ei heglwysi Catholig a'i phensaernïaeth ddinesig o basteli pinc ac oren sy'n rhoi i ffwrdd ei gwir leoliad, yn Nhalaith Hidalgo, Mecsico. Fe ddathlodd cymuned Gernywaidd-Fecsicanaidd y dref ei deucanmlwyddiant eleni, felly pryd gwell i fi archwilio tref enedigol fy hen nain, Graceta Skewes Davey?

Fe ddarganfuodd y conquistadores Sbaeneg aur ac arian yn yr ardal yn y 1520au, a chafodd pobl frodorol (ac, yn nes ymlaen, caethweision Africanaidd) eu gorfodi i weithio yn y pyllau. Ar ôl degawdau o drafferth – gan gynnwys y streic gyntaf yn hanes Gogledd America yn 1766 – gwahoddwyd tua 350 o lowyr medrus Cernyw (y rhan fwyaf ohonynt o Redruth, Camborne a'm plwyf genedigol, Gwennap) i gyflwyno technoleg mwyngloddio newydd yn 1824, er mwyn ail-lansio'r diwydiant arian. Fe wnaeth y genhedlaeth gyntaf o lowyr gario eu peiriannau mwyngloddio o Veracruz ar yr arfordir i'r dref yn y mynyddoedd dros y tir – taith ofnadwy o beryglus (yn enwedig o ystyried ei bod yn dymor y dwymyn felen) nad oedd llawer wedi ei goroesi. Serch hynny, fe fwynhaodd y gymuned Gernywaidd ffordd gyfforddus o fyw yn gyffredinol, a phenderfynodd degau ohonynt aros a phriodi pobl leol, a chwarae rôl actif yn eu mamwlad fabwysiedig. Dim ond un consesiwn i Blighty oedd ganddynt: fe sefydlodd gymuned y Panteón Inglés, lle cafodd y Cernywiaid (a Phrydeinwyr eraill) eu claddu, yn wynebu tuag at Brydain Fawr. Mae'r fynwent yn dal i wasanaethu cymuned Gernywaidd y dref (ymhlith eraill), dan ofal Señora Hernández Skewes – cyfnither pell i fi, efallai! – gyda chymorth UNESCO fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Mwyngloddio Cernyw a Gorllewin Dyfnaint.

Gall pawb yn yr ardal ddweud wrthyh fod y Cernywiaid wedi dod â'r pasty – neu, yn Sbaeneg, paste – sydd wedi'i addasu i'r cynhwysion sydd ar gael yn lleol. Mae Museo del Paste yn dathlu treftadaeth y paste, a'i gysylltiad â glowyr o Gernyw; mae hyd yn oed yn cynnig y cyfle i wneud eich paste papa con carne (fersiwn agosaf at y Cornish pasty traddodiadol) eich hun! Nid yw pawb, fodd bynnag, yn gwybod bod y glowyr wedi dod â phêl-droed hefyd – cafodd gêm gyntaf pêl-droed Mecsico ei chwarae mewn sgwâr yn y dref sydd bellach yn faes parcio. Hefyd, er gwaethaf eu ffyrdd breintiedig o fyw, fe ddaeth y Cernywiaid â gwelliannau mewn amodau gwaith, gan gynnwys hetiau caled, esgidiau uchel a lampau diogelwch ar gyfer gweithwyr brodorol. Fel canlyniad (yn ôl tywyswyr Museo del Paste), ar y cyfan, doedd y Cernywiaid ddim yn wynebu drwgdeimlad gan bobl leol.

Fel siaradwr Cymraeg newydd sy'n dod o Gernyw yn wreiddiol, o dras Cernywaidd-Mecsicanaidd, mae Real del Monte yn cynrychioli rhywbeth arbennig i fi. Yn gyntaf, mae'n herio'r stereoteip o bobl Cernyw yn hambons mewnbyg – i'r gwrthwyneb, roedd galw mawr am ein technoleg a'n sgiliau yn fyd-eang drwy gydol y Chwyldro Diwydiannol. Ar ben hynny, mae'n dangos pa mor gryf yw'r hunaniaeth Gernywaidd a Cheltaidd, er gwaethaf pwysau Prydeindod cyffredinol, sy'n bygwth dileu ein hunigrywiaeth. Yn wir, o ystyried bod yr iaith Gernyweg wedi diflannu fel iaith gymunedol cannoedd o flynyddoedd ynghynt, mae goroesiad ein traddodiadau diwylliannol (nid ein bwyd yn unig, ond hefyd, er enghraifft, tystiolaeth o ysbrydegaeth Geltaidd ar feddau yn y fynwent) yn fwy o syndod. Yn anad dim, mae'n cynnig stori o ffynnu mewn amgylchiadau anarferol, mewn gwlad Sbaeneg ei hiaith – fersiwn Cernywaidd o'r Wladfa, efallai. Rhywbeth i ni gyd ei ddathlu.

[Nodyn y golygydd: Mae Rich yn cynorthwyo'n gyson yn Siop Tŷ Tawe a'r caffi, ac yn aelod o Gôr Tŷ Tawe.]



YMWELIAD GAN SARA DAFYDD

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd criw o flwyddyn 9 a 10 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe gyfle i siarad â'r gohebydd Sara Dafydd sy'n gyn-ddisgybl i ni. Paratôdd y disgyblion gwestiynau o flaen llaw gan ei holi am ei haddysg, o ble daeth yr awydd i weithio fel gohebydd, ei gyrfa, yr uchafbwyntiau hyd yn hyn a defnyddioldeb y Gymraeg yn ei gwaith. Yn sicr, mwynhaodd y disgyblion gwrdd â hi ac elwa o glywed am daith ei gyrfa hyd yn hyn.



PAWB A'I FARN

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWCHED

Ar ddiwedd Tachwedd cafodd criw o flwyddyn 13 gyfle i fod yn rhan o ddarllediad o Pawb a'i Farn. Roedd Kieran Miller, Ella Thomas a Jorja Woods wedi mwynhau gwrando ar Nia Griffith AS, Kevin Campbell AS a'r Athro Gwynedd Parry yn trafod amrywiaeth o gwestiynau. Testun balchder oedd gweld Jorja, Kieran ac Ella yn ymateb yn aeddfed a synhwyrol i gwestiynau'r cyflwynydd Steffan Powell a chafodd Kieran ac Ella gyfle i ofyn cwestiynau hefyd. Bydden nhw'n mynychu'r rhaglen nesaf yn Llanelli yn Ionawr hefyd. Da iawn chi'ch tri!



NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

DROS 9,500 O BOBL YN MANTEISIO AR PROSIECT I DDATBLYGU'R SÎN GERDDORIAETH IAITH GYMRAEG YN ABERTAWE

Mae prosiect i ddatblygu'r sîn cerddoriaeth iaith Gymraeg yn Abertawe yn cyrraedd ei ddiwedd glo ym mis Rhagfyr.

Wedi'i arwain gan Menter Iaith Abertawe, mae'r prosiect wedi gweld cyfanswm o 68 o ddigwyddiadau byw gyda dros 9,500 o bobl yn mynychu ers dechrau'r prosiect ym mis Medi 2022. Mae'r prosiect hefyd wedi rhoi cyfleoedd i dros 170 o artistiaid gwahanol sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith neu o ardal Abertawe, ac wedi helpu sefydlu gŵyl gelfyddydol gyfoes Gymraeg blynyddol newydd, Gŵyl Tawe, yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Dywedodd Tomos Jones, Prif Swyddog Menter Iaith Abertawe, "Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi profi'r awydd am ddigwyddiadau celfyddydol iaith Gymraeg rheolaidd yn Abertawe. Mae'r gefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi ein galluogi i raglennu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, gan arddangos genres gwahanol a rhoi cyfleoedd i artistiaid newydd. Mae hyn wedi ein galluogi i adeiladu partneriaethau a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ac rydym yn hyderus y bydd y prosiect hwn yn cael effaith sylweddol a pharhaol ar y sîn celfyddydol iaith Gymraeg yn yr ardal."

Yn ogystal â digwyddiadau rheolaidd yn Nhŷ Tawe, Canolfan Gymraeg, Celfyddydau a Chymunedol Abertawe, mae'r prosiect hefyd wedi gweld cydweithio rheolaidd gyda lleoliadau eraill yn y ddinas fel The Bunkhouse, Elysium, a'r Mission Gallery.

Dywedodd Scott Mackay, Rheolwr Lleoliad yr Elysium, "Mae gweithio gyda Menter Iaith Abertawe wedi ein galluogi i lwyfannu ystod eang o gerddoriaeth Gymraeg; caniatáu i ni lwyfannu artistiaid a fyddai fel arall wedi bod tu hwnt i'n cyrraedd, a rhoi cyfleoedd i berfformwyr lleol ymddangos gyda pherfformwyr anhygoel. Mae ystod y dalent gerddorol yn Abertawe, a Chymru, ar hyn o bryd yn ysbrydoledig ac ni allwn aros i weld beth sydd ar y gweill ar gyfer 2025!"

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau byw, mae'r prosiect hefyd wedi sefydlu clwb cerddoriaeth wythnosol newydd ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Mae'r bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cerddorol, cyfansoddi caneuon, a recordio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r aelodau hefyd wedi derbyn cyfleoedd i fynd ymlaen i chwarae gigs byw fel rhan o'r prosiect ehangach. Bydd y gweithdai wythnosol hyn yn parhau yn 2025 a thu hwnt.

Drwy gydol y prosiect, roedd tocynnau am ddim ar gael i fyfyrwyr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, gan annog siaradwyr newydd i ymgysylltu â'r diwylliant a'r celfyddydau iaith Gymraeg.

Dywedodd Rhiannon Britton, Swyddog Ansawdd Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, "Mae'r prosiect hwn wedi bod yn anhygoel i'n dysgwyr ni ac mae cymaint ohonyn nhw wedi manteisio ar gael tocynnau i'r gigs Cymraeg am ddim. Mae wedi rhoi cyfle iddyn nhw gwrrd â siaradwyr a dysgwyr eraill ac ymarfer eu sgiliau iaith newydd - rhywbeth sy'n gallu bod yn heriol yn ardal Abertawe. Yn ogystal â hynny, mae'r prosiect wedi agor drysau i fyd newydd o gerddoriaeth a diwylliant Cymreig iddyn nhw a fyddai ddim wedi bod yn bosibl heb y prosiect hwn. Dw i'n gwybod eu bod nhw'n edrych ymlaen at ragor o gigs yn y dyfodol!"

Yn unol â'r rhaglen dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bydd y prosiect yn gorffen gyda chyfres o gigs amrywiol ym mis Rhagfyr. Ar nos Sul y 1af o Ragfyr, bydd y trysorau indie Cymraeg Melys yn ymweld â'r Bunkhouse, gyda chefnogaeth ddwyieithog gan Pseudo Cool, Y Dail, a Swan Hill mewn cydweithrediad â'r ffansin R*E*P*E*A*T. Ar nos Wener y 6ed o Ragfyr, bydd Griff Lynch, prif leisydd Yr Ods a'r artist pop-electronig unigol, yn ymweld â Thŷ Tawe gyda chefnogaeth gan yr arwyr indie-funk lleol Ci Gofod a'r sêr newydd Taran.

Sioe olaf y prosiect yw'r sioe unigol fwyaf hyd yma, gyda'r cerddor gwerin amgen Georgia Ruth yn perfformio yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Taliesin ar nos Llun yr 16eg o Ragfyr. Yn y sioe arbennig hon, bydd Georgia yn chwarae ei halbwm 'Cool Head' a enwebwyd ar gyfer Gwobr Gerddoriaeth Gymreig 2024 yn ei chyfanrwydd gyda band llawn a llinynnau i ddod ag awyrgylch y record arbennig iawn hon i Abertawe.

Er bod y prosiect penodol hwn yn dod i ben, mae gan Menter Iaith Abertawe gynlluniau eisoes ar waith ar gyfer 2025 a thu hwnt.

"Rydym yn gyffrous iawn i rannu ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda phawb", eglura Tomos Jones, "mae gennym ni gigs gwych i'w cyhoeddi ar ddechrau 2025, ac mae yna newyddion cyffrous iawn am Gŵyl Tawe yn dod yn fuan iawn hefyd. Rydyn ni'n teimlo'n bositif iawn am ddyfodol y sîn celfyddydol iaith Gymraeg yn Abertawe."


BORE COFFI LLYFRGELL TREFORYS

Bydd bore coffi arall i siaradwyr newydd yn cychwyn yn Llyfrgell Treforys ar fore dydd Iau y 9fed o Ionawr. Fe fydd y bore coffi yn rhedeg yn wythnosol rhwng 10yb - 12yp. Mae dŵr twym ar gael yna am ddim, ond bydd angen dod a'ch cwpan a'ch lluniaeth eich hun.

Cyfle arall i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg yn eich ardal leol!

GIG OLAF 2024!

16.12 - Georgia Ruth (Taliesin)



BORE COFFI CYMRAEG

Ymunu gyda ni am sgwrs dros banded!
Practise your Welsh in a friendly and informal setting

Croeso i siaradwyr o bob lefel.
A warm welcome to speakers of all levels!

Dewch a'ch lluniaeth eich hun - dŵr twym ar gael am ddim!
Bring your own beverage - hot water provided

YN DECHRAU/STARTING

09.01.25 • 10YB - 12YP
Llyfrgell Treforys | Morriston Library

YMUNA Â NI BOB BORE DYDD IAU
JOIN US EVERY THURSDAY MORNING

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd/Rhagfyr.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plis danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr erbyn Ionawr 6ed trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

